OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 101 (Cy.21) (C.7)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *19 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddynt hwy(**1**) gan adrannau 121(5) a 122(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2011 a daw i rym ar 15 Chwefror 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005

**2.** Yn yr Atodlen i Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005(**3**) hepgorer y geiriau "Cyngor Sir Gwynedd".

(**1**) Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p.32).

(**2**) 2004 p.5.

(**3**) O.S. 2005/2722 (Cy.193), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/842 (Cy.77), 2006/1700 (Cy.162), 2006/3119 (Cy.289), 2007/546 (Cy.48), 2007/1023 (Cy.92), 2007/2371 (Cy.194), 2007/2447 (Cy.201), 2007/2449 (Cy.205), 2008/10 (Cy.4), 2008/2162 (Cy.192), 2009/2645 (Cy.217) a 2010/2002 (Cy.188).

*Rosemary Thomas*
Y Prif Gynllunydd / Dirprwy Gyfarwyddwr
O dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

19 Ionawr 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirwyn i ben y trefniadau trosiannol a wnaed o dan Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005 ("Gorchymyn Rhif 4") mewn perthynas â Chyngor Sir Gwynedd ("y Cyngor").

O dan y trefniadau hynny, gall pob awdurdod cynllunio lleol a restrir yn yr Atodlen i Orchymyn Rhif 4 barhau â'r broses sy'n arwain yn y pen draw at fabwysiadu ei gynllun datblygu unedol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn hytrach na gorfod dechrau ar y gwaith o baratoi cynllun datblygu lleol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

Mae'r Gorchymyn hwn yn tynnu'r Cyngor oddi ar y rhestr o awdurdodau cynllunio lleol yn yr Atodlen i Orchymyn Rhif 4 ac felly'n gosod y Cyngor o dan ddyletswydd i baratoi cynllun datblygu lleol ar gyfer ei ardal.